O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 12 (Cy. 5)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan High Beech, Ger Cas-gwent, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*10 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*21 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A466) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan High Beech, Ger Cas-gwent, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o gefnffyrdd yr A48 a'r A466 wrth Gylchfan High Beech a'r ffyrdd sy'n arwain ati, ger Cas-gwent, yn Sir Fynwy, a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.